

Hawdd ei Ddeall



# Ein cynllun ni ar gyfer gwneud yn siŵr bod pobl yn Sir y Fflint yn cael eu trin yn deg

Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud o 2020 i 2024



Cafodd y ddogfen ei hysgrifennu gan Gyngor Sir y Fflint. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir y Fflint 2020–2024'.

Ebrill 2020



## Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y bydd arnoch chi angen help i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Mae'n dweud beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.



Os yw'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn **ysgrifennu glas cyffredin**. Gallwch edrych beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar dudalen 20.



Pan fydd y ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Cyngor Sir y Fflint**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:



**Ffôn:** 01352 702131



**E-bost:** [stephanie.aldridge@flintshire.gov.uk](mailto:stephanie.aldridge@flintshire.gov.uk)



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

<b>Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon.....</b>	<b>2</b>
<b>Ynglŷn â'r ddogfen hon.....</b>	<b>4</b>
<b>Cyflwyniad.....</b>	<b>5</b>
<b>Ein nodau cydraddoldeb.....</b>	<b>6</b>
Nod 1: Gwella iechyd, lles a gofal cymdeithasol.....	6
Nod 2: Rhoi mwy o gefnogaeth i fyfyrwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig er mwyn iddyn nhw gael mwy o gymwysterau.....	8
Nod 3: Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu talu'n gyfartal ac yn deg yn y gweithle.....	10
Nod 4: Gwella diogelwch pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig.....	12
Nod 5: Rhoi mwy o gyfleoedd i bobl â nodweddion gwarchoddedig fod yn rhan o bethau a chael dweud eu barn nhw am wasanaethau.....	14
Nod 6: Gwella'r ffordd y mae pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig yn byw.....	16
Nod 7: Dysgu mwy am ffordd y gallwn ni gefnogi pobl sy'n byw mewn tlodi.....	18
<b>Geiriau Anodd.....</b>	<b>20</b>



# Ynglŷn â'r ddogfen hon

Mae hwn yn gynllun ar gyfer y pethau y byddwn ni'n eu gwneud dros y pedair blynedd nesaf.



Amcan y cynllun hwn yw helpu i wneud yn siŵr bod pobl Sir y Fflint yn cael eu trin yn deg.



Rydyn ni wedi gweithio gyda mudiadau eraill yng Ngogledd Cymru i ysgrifennu'r cynllun hwn.



Ac rydyn ni wedi meddwl am ymchwil sydd wedi cael ei wneud gan y **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**.



A deddf sy'n cael ei alw'n **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.



Os hoffech chi gael rhoi eich barn am y cynllun hwn cysylltwch â ni.

# Cyflwyniad

## Cydraddoldeb



Rydyn ni wedi seilio'r cynllun hwn ar ddeddf sy'n cael ei alw'n **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**. Mae'r ddeddf hon yn amddiffyn pobl rhag cael eu trin yn annheg yn y gwaith a chan wasanaethau.



Mae'r **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** yn dweud na ddylai pobl gael eu trin yn annheg os oes ganddyn nhw **nodweddion gwarchodedig**.

Mae **nodweddion gwarchodedig** yn derm sy'n cael ei ddefnyddio i siarad am wahanol grwpiau o bobl a allai gael eu trin yn llai teg.

Mae **nodweddion gwarchodedig** yn cynnwys pethau fel:

- Oed – hen neu ifanc.
- Anabledd
- O ble rydych chi'n dod
- Rhywedd – dyn neu ddynes.



Ni ddylai pobl gael eu trin yn wahanol nac yn annheg oherwydd pethau fel hyn.



# Ein nodau cydraddoldeb ni

## Nod 1: Gwella iechyd, lles a gofal cymdeithasol.

### Y pethau mae arnon ni eisiau eu cyflawni:



- Bod **Sipsiwn a Theithwyr** yn gallu gweld meddyg, deintydd a gwasanaethau iechyd meddwl



Mae **Sipsiwn a Theithwyr** yn gymuned o bobl sydd weithiau'n teithio o gwmpas neu'n byw ar safle.



- Bod gwasanaethau'n deall ac yn medru cefnogi pobl sydd â **dementia**.



Mae **Dementia** yn afiechyd sy'n effeithio ar yr ymennydd. Mae pobl sydd â **dementia** yn cael problemau gyda'u cof nhw ac yn gallu bod yn ddryslyd. Mae fel arfer yn effeithio ar bobl hŷn.



- Bod pobl ag anabledd dysgu yn cael archwiliad iechyd bob blwyddyn.

## Dyma rai o'r pethau y byddwn ni'n eu gwneud erbyn 2024:



- Gwella safle'r [Sipsiwn a'r Teithwyr](#) sy'n eiddo i'r cyngor.



- Gwneud safle arall i [Sipsiwn a Theithwyr](#).



- Darparu gwahanol gefnogaeth i bobl sy'n byw gyda [dementia](#).



- Gwneud cynllun iechyd a lles ar gyfer ein staff ni.

## Dyma rai o'r pethau rydyn ni wedi eu gwneud yn barod:



- Rydyn ni'n dysgu mwy am faterion pwysig ar gyfer cymuned y [Sipsiwn a'r Teithwyr](#).



- Rydyn ni wedi cytuno â eddilyn cynllun sy'n cael ei alw'n **Amser i Newid**. Mae hyn ar gyfer gwella iechyd meddwl yn y gweithle.

## Nod 2: Rhoi mwy o gefnogaeth i fyfyrwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig er mwyn iddyn nhw gael mwy o gymwysterau

### Y pethau mae arnon ni eisiau eu cyflawni



Mae arnon ni eisiau i fyfyrwyr sydd â **nodweddion gwarchoddedig** wneud yn well mewn Mathemateg, Cymraeg a Saesneg.

### Dyma rai o'r pethau y byddwn ni'n eu gwneud erbyn 2024:



- Edrych pwy sy'n cael ei adael allan yn yr ysgol.



- Edrych a yw myfyrwyr sydd â **nodweddion gwarchoddedig** i ffwrdd o'r ysgol fwy nag eraill.



- Casglu gwybodaeth am fwlio.



## Dyma rai o'r pethau rydyn ni wedi'u gwneud yn barod:



- Mae pob ysgol uwchradd yn Sir y Fflint wedi cael hyfforddiant **Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth**.



- Mae athrawon wedi cael hyfforddiant er mwyn iddyn nhw fedru dysgu disgyblion am bethau fel dealltwriaeth a pharch.

## Nod 3: Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu talu'n gyfartal ac yn deg yn y gweithle

Y pethau y mae arnon ni eisiau eu cyflawni:



- Gwneud yn siŵr nad yw pobl yn cael eu talu llai oherwydd **nodwedd gwarchoddedig**.



- Gwneud yn siŵr bod mwy o bobl anabl a phobl o gefndir **Du** neu **Leiafrifoedd Ethnig** yn cael **prentisiaethau**.



Gall pobl sy'n **ddu** neu' o **leiafrifoedd ethnig** ddod o wlad wahanol. Neu fod â lliw croen gwahanol i'r rhan fwyaf o'r bobl eraill yn eu cymuned nhw.



Mae **prentisiaeth** yn meddwl bod person yn dysgu medrau swydd tra bydd yn gweithio. Fel arfer maen nhw'n cael eu talu llai gan eu bod nhw'n dal i ddysgu.

## Dyma rai o'r pethau y byddwn ni'n eu gwneud erbyn 2024:



- Edrych ar gyflog pawb



- Cefnogi pobl ag anabledd dysgu i gael gwaith gyda thâl. Mae hyn trwy wasanaeth sy'n cael ei alw'n '**Project SEARCH**'

## Dyma rai o'r pethau rydyn ni wedi'u gwneud yn barod:



- Rydyn ni'n gyflogwr **Hyderus o ran Anabledd**. Prosiect y Llywodraeth yw hwn i gael mwy o bobl anabl yn gweithio.



- Mae cyflogau mwy teg yn cael eu talu i'n staff ni.



- Rydyn ni wedi cefnogi mwy o bobl ag anabledd dysgu i gael gwaith gyda thâl.

# Nod 4: Gwella diogelwch pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig

## Y pethau mae arnon ni eisiau eu cyflawni:



- Mae arnon ni eisiau i Sir y Fflint fod yn lle diogel i bawb fyw ynddo fo, gweithio ynddo fo ac ymweld ag o.

## Dyma rai o'r pethau y byddwn yn eu gwneud erbyn 2024:



- Rhoi hyfforddiant i'n staff ynglŷn â throsedd casineb.



Mae'n **drosedd casineb** pan fydd pobl yn ymosod ar rywun neu'n eu trin nhw'n wael iawn oherwydd eu bod nhw'n meddwl bod y person yn wahanol.



- Cefnogi staff sy'n cael profiad o **drosedd casineb**.



- Rhoi hyfforddiant am **drosedd casineb** mewn ysgolion.

## Dyma rai o'r pethau rydyn ni wedi'u gwneud yn barod:



- Rydyn ni wedi hyfforddi staff ynglŷn â **throsedd casineb**.



- Rydyn ni wedi agor lle diogel i ddynion fynd iddo fo pan fyddan nhw'n ceisio dianc rhag **drais teuluol**.



Mae **trais teuluol** yn unrhyw ymddygiad sy'n achosi niwed i rywun. Partner, cyn-bartner neu aelod o'r teulu sy'n gwneud hyn. Mae o'n gallu digwydd i unrhyw un.



- Rydyn ni wedi rhoi hyfforddiant i yrwyr tacsï fel eu bod nhw'n gwybod beth yw'r arwyddion mewn pobl a allai fod mewn perygl o gael eu niweidio. Ac yn gwybod sut i sôn wrth rywun amdano fo.



## Nod 5: Rhoi mwy o gyfleoedd i bobl â nodweddion gwarchoddedig fod yn rhan o bethau a chael dweud eu barn nhw am wasanaethau



### Y pethau mae arnon ni eisiau eu cyflawni:

- Bod pobl yn cael mwy o gyfleoedd i ddweud eu barn nhw am benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.
- Cael mwy o bobl anabl i ddefnyddio gwasanaethau.



### Dyma rai o'r pethau y byddwn ni'n eu gwneud:



- Gwneud yn siŵr bod pobl sy'n siarad gwahanol ieithoedd yn gallu defnyddio gwasanaethau.



- Dal ati i roi hyfforddiant am gydraddoldeb i'n staff ni.



- Ysgrifennu cynllun i helpu mwy o bobl i fod yn rhan o bethau.

## Dyma rai o'r pethau rydyn ni wedi'u gwneud yn barod:



- Rydyn ni wedi cynnig dosbarthiadau drama i fyfyrwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.



- Rydyn ni wedi cychwyn mwy o wasanaethau ar gyfer pobl yn y gymuned. Er enghraifft dangosiadau ffilmiau arbennig yn y sinema ar gyfer pobl sy'n byw gyda [dementia](#).

## Nod 6: Gwella'r ffordd y mae pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig yn byw

Y pethau y mae arnon ni eisiau eu cyflawni:



- Gwell amodau byw ar gyfer [Sipsiwn a Theithwyr](#) sy'n byw ar safle'r Cyngor



- Gwell gwasanaethau tai ar gyfer pobl anabl.

Dyma rai o'r pethau y byddwn ni'n eu gwneud erbyn 2024:



- Gwneud safle newydd ar gyfer cymuned [Sipsiwn a Theithwyr](#).



- Gwella toiledai, ystafelloedd ymolchi a cheginau ar safle Sipsiwn a Theithwyr o eiddo'r cyngor



- Cefnogi **ffoaduriaid** i fyw yn yr ardal.



Mae **ffoaduriaid** yn bobl sydd wedi cael eu gorfodi i adael eu gwlad nhw oherwydd eu bod nhw mewn perygl.



- Adeiladu mwy o dai

**Dyma rai o'r pethau rydyn ni wedi eu gwneud yn barod:**



- Rydyn ni wedi adeiladu mwy o dai y gall pobl eu fforddio.



- Rydyn ni wedi cefnogi **ffoaduriaid** i fyw yn Sir y Fflint.

## Nod 7: Dysgu mwy am ffordd y gallwn ni gefnogi pobl sy'n byw mewn tlodi



Mae **tlodi** yn meddwl nad oes gennych chi ddigon o arian i dalu eich biliau chi, bwydo eich hun a'ch teulu chi, gwresogi eich cartref chi, prynu'r pethau sydd eu hangen arnoch chi a theithio o gwmpas y lle.



### Y pethau mae arnon ni eisiau eu cyflawni:

Gwneud yn siŵr ein bod ni'n meddwl ynghylch sut y bydd ein penderfyniadau ni'n effeithio ar bobl sy'n byw mewn **tlodi**.

### Dyma rai o'r pethau y byddwn ni'n eu gwneud erbyn 2024:



- Rhoi tamponau a chadachau misglwyf am ddim i ysgolion ar gyfer merched sy'n cael eu misglwyf nhw.



- Rhoi cinio am ddim yn fwy aml i fyfyrwyr yn ystod gwyliau'r ysgol.





- Dweud wrth bobl am fudd-daliadau y gallan nhw wneud cais amdanyn nhw.



- Rhoi mwy o gefnogaeth i bobl sydd â phroblemau ag arian trwy'r **Tim Diwygio Lles**.



- Siarad â phobl mewn tlodi am bethau fel cinio ysgol am ddim a help i brynu dillad ysgol.

## Dyma rai o'r pethau rydyn ni wedi'u gwneud yn barod:



- Rhoi tamponau a chadachau misglwyf i bob ysgol, clybiau ieuenctid a banciau bwyd.



- Mae **Theatre Clwyd** yn cynnig tocynnau rhatach i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol.

# Geiriau Anodd

## Dementia

Mae dementia yn afiechyd sy'n effeithio ar yr ymennydd. Mae pobl sydd â dementia yn cael problemau gyda'u cof nhw ac yn gallu bod yn ddrwslyd. Mae fel arfer yn effeithio ar bobl hŷn.

## Du neu leiafrifoedd ethnig

Gall pobl sy'n ddu neu o leiafrifoedd ethnig ddod o wlad wahanol. Neu fod â lliw croen gwahanol i'r rhan fwyaf o'r bobl eraill yn eu cymuned nhw.

## Ffoaduriaid

Mae ffoaduriaid yn bobl sydd wedi cael eu gorfodi i adael eu gwlad nhw oherwydd eu bod nhw mewn perygl.

## Nodweddion gwarchoddedig

Mae nodweddion gwarchoddedig yn derm sy'n cael ei ddefnyddio i siarad am wahanol grwpiau o bobl a allai gael eu trin yn llai teg. Mae nodweddion gwarchoddedig yn cynnwys pethau fel:

- Oed – hen neu ifanc.
- Anabledd
- O ble rydych chi'n dod
- Rhywedd – dyn neu ddynes.

Ni ddylai pobl gael eu trin yn wahanol nac yn annheg oherwydd pethau fel hyn.

## **Prentisiaeth**

Mae prentisiaeth yn meddwl bod person yn dysgu medrau swydd tra bydd yn gweithio. Fel arfer maen nhw'n cael eu talu llai gan eu bod nhw'n dal i ddysgu.

## **Sipsiwn a Theithwyr**

Mae Sipsiwn a Theithwyr yn gymuned o bobl sydd weithiau'n teithio o gwmpas neu'n byw ar safle.

## **Tlodi**

Mae tlodi yn meddwl nad oes gennych ddigon o arian i dalu eich biliau chi, bwydo eich hun a'ch teulu chi, gwresogi eich cartref chi, prynu'r pethau sydd eu hangen arnoch chi a theithio o gwmpas y lle.

## **Trais teuluol**

Mae trais teuluol yn unrhyw ymddygiad sy'n achosi niwed i rywun. Partner, cyn-bartner neu aelod o'r teulu sy'n gwneud hyn. Mae'n gallu digwydd i unrhyw un.

## **Trosedd casineb**

Mae'n drosedd casineb pan fydd pobl yn ymosod ar rywun neu'n eu trin nhw yn wael iawn oherwydd eu bod nhw'n meddwl bod y person yn wahanol.